**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**
**31 Ionawr 2024 rhwng 2pm a 4pm**
**Cofnodion**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Teitl** | **Sefydliad** |
| Rachel Connor (RC) | Prif Swyddog Gweithredol | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |
| Rob Thomas (RT) | Prif Swyddog Gweithredol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Judith Cole (JC) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu | Llywodraeth Cymru |
| Claire Beynon (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Hourahine (FH) | Rheolwr Gweithrediadau Canol De Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| John Treherne (JT) | Rheolwr Grŵp | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH) | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig | Cyngor Tref y Barri |
| Mark Brace (MB) | Comisiynydd Cynorthwyol | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Daniel Jones (DJ) | Pennaeth Diogelwch Cymunedol a'r Uned Atal Trais | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Charles Janczewski (CJ) | Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris (AH) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Natalie Rees (NR) | Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd | Trafnidiaeth Cymru |
| Sarah Tipping (ST) | Pennaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Rebecca McCool (RM) | Uwch Swyddog Prawf | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Paula Ham (PH) | Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau | Cyngor Bro Morgannwg |
| Tom Bowring (TB) | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Marc Attwell (MA) | Pennaeth Cymunedau a Phartneriaethau | Heddlu De Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Helen Moses (HM) | Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad | Cyngor Bro Morgannwg |

| | | |
|---|---|---|
| Andreas Pieris-Plumley (APP) | Swyddog Polisi | Cyngor Bro Morgannwg |
| Dafydd Sedgwick (DS) | Intern Strategaeth a Phartneriaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Mathew Lewis (ML) | Uwch-arolygydd, Arweinydd yr Heddlu ar gyfer Gofal Cywir Person Cywir | Heddlu De Cymru |
| Oliver Williams (OW) | Cofrestrydd Arbenigol mewn Iechyd y Cyhoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Louise Denham (LD) | Cydlynydd Bwyd y Fro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Eirian Evans (EE - GPC) | Pennaeth De Cymru Un | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Suzanne Rankin (SR) | Prif Weithredwr | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| David Letellier (DL) | Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Lis Burnett (LB) | Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Estelle Hitchon (EH) | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| Rhif | Eitem Agenda | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Croesawodd a chyflwynodd MB bawb i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC). | |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>Gweler y rhestr lawn o ymddiheuriadau uchod. | |
| **3.** | **Cofnodion cyfarfod y BGC a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023**<br><br>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir. | |
| **4.** | **Gofal Cywir Person Cywir Heddlu De Cymru**<br><br>Cyflwynodd ML ei hun fel arweinydd yr heddlu ar gyfer Gofal Cywir Person Cywir (GCPC). Esboniodd ML fod GCPC wedi dechrau gyda Heddlu Humberside a weithredodd y fenter a'i fod ymwneud ag unigolion yn derbyn y cymorth cywir gan yr asiantaeth gywir nad yr heddlu yw hynny bob amser. Mae cyfrifoldebau sydd gan yr Heddlu sy'n amlinellu dyletswydd gyfreithiol i weithredu dan amgylchiadau penodol. Yn gyffredinol, nid oes gan yr Heddlu ddyletswydd gofal dan gyfraith gyffredin i amddiffyn unigolion rhag niwed. Fodd bynnag, efallai y bydd ganddynt ddyletswydd gofal lle mae'r heddlu wedi | |

| | | |
|---|---|---|
| | cymryd cyfrifoldeb, yn ogystal â dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Dan y ddeddfwriaeth a'r cyngor o ran delio â phobl ifanc, mae ystyriaethau ychwanegol hefyd. Mae hefyd lawer o ystyriaethau ynghylch pŵer mynediad i'r heddlu. Rhoddodd ML drosolwg data am adroddiadau digwyddiadau pryder am les, gan nodi cyfartaledd o 36 adroddiad y dydd. Yna, caiff hyn ei rannu'n ddigwyddiadau pryder am les a fynychwyd gan Heddlu De Cymru (HDC), a pha ddigwyddiadau y byddai/na fyddai HDC yn eu mynychu dan GCPC ac yna ei ddadansoddi ymhellach i ddangos pa asiantaethau eraill y dylent fynychu dan GCPC. Esboniodd ML y bydd gan y broses o weithredu GCPC bedwar cam gan ddechrau gydag ymgysylltu a data. Tynnodd ML sylw at y ffaith bod rhai galwadau y bydd yr heddlu yn eu mynychu o hyd fel bygythiad i fywyd neu niwed difrifol. Y camau nesaf fydd rhannu data, ymgysylltu parhaus, nodi sut y gall asiantaethau ymateb i GCPC a sesiynau briffio mewnol o fewn asiantaethau partner.<br><br>Ailadroddodd MA nad yw hyn yn ymwneud â symud yn ôl i wasanaethau statudol ond ei bod ymwneud â phobl yn cael y gofal cywir. Yn BGC Caerdydd mae gweithgor yn cael ei sefydlu i fonitro'r gwaith o weithredu GCPC.<br><br>Tynnodd AH sylw at y ffaith bod materion yn ymwneud â phobl yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys pan nad oes angen yn rhan o sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir. Mae angen llwybrau i bobl gael mynediad at y gwasanaeth gofal cywir ac mae angen i bartneriaid gydweithio i sicrhau hyn, fel nad yw digwyddiadau'n cael eu huwchgyfeirio at wasanaethau nad oes eu hangen.<br><br>Nododd ML fod y ffaith bod pobl yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys pan nad oes angen yn cael ei gydnabod gan yr Heddlu ac mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt i edrych ar sut y gellir mynd i'r afael â hyn o'u persbectif.<br><br>Tynnodd CJ sylw at sut mae hyn yn cysylltu â strategaeth wedi'i hadfywio'r bwrdd iechyd sydd â'r nod o sicrhau bod unigolion yn cael y gofal cywir yn y lle cywir. Dywedodd CJ ei fod yn cefnogi GCPC a'r gweithgor o fewn BGC Caerdydd<br><br>Dywedodd RT ei fod yn cefnogi GCPC, gan nodi bod monitro sut mae hyn yn gweithio ac yn esblygu yn bwysig, er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir a bod asiantaethau yn cymryd cyfrifoldeb. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni hyn.<br><br>Esboniodd ML y bydd sesiwn friffio gyda'r heddlu a gwahoddir partneriaid. Mae wedi'i chynllunio ar gyfer y pythefnos cyntaf o fynd yn fyw i gael dealltwriaeth o safbwynt yr heddlu a phartneriaid. Bydd gwerthusiad yn cael ei wneud a bydd hyn yn dylanwadu ar gamau 2, 3 a 4. | |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd**<br><br>Cyflwynodd CB yr adroddiad ac esboniodd fod adroddiadau annibynnol ar gyfer y boblogaeth yn cael eu datblygu mewn partneriaeth yn hytrach nag adroddiadau sefydliadol. Defnyddir yr adroddiad hwn i dynnu sylw at faterion sydd angen sylw ar hyn o bryd.<br><br>Esboniodd OW fod yr adroddiad yn ymwneud ag ailgysylltu â natur a'i adfer er budd bioamrywiaeth ac iechyd. Bioamrywiaeth yw amrywiaeth popeth sy'n byw ar y ddaear, ac mae 69% o fioamrywiaeth byd-eang wedi'i golli dros y 50 mlynedd diwethaf (1970-2018). Mae bioamrywiaeth yn lleihau oherwydd nifer o resymau fel pobl yn defnyddio tir (tai, seilwaith, ffermio), y newid yn yr hinsawdd a llygredd, ecsbloetio rhywogaethau (gorhela), a rhywogaethau estron goresgynnol (planhigion, anifeiliaid neu bryfed a ddygir gan bobl i amgylchedd estron). Esboniodd OW fod tir yng Nghaerdydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion trefol, tra bod y Fro yn wyrddach ond yn dir ffermio'n bennaf, gyda rhai pocedi o goetir. Esboniodd OW fod ail hanner yr adroddiad yn canolbwyntio ar agweddau iechyd, a sut mae llai o fioamrywiaeth yn effeithio ar iechyd. Mae ymchwil wedi dangos canlyniadau iechyd sylweddol sy'n gysylltiedig â natur a bioamrywiaeth. Mae unigolion yn fwy tebygol o fod yn actif yn gyson mewn man gwyrdd. Daw bwyd o fyd natur, gyda mwyafrif yr anifeiliaid yn dda byw, nid yn anifeiliaid gwyllt. Mae rhyngweithio cymdeithasol yn well mewn/ger ardaloedd gwyrdd, ac mae ardaloedd gwyrdd hefyd yn gwella lles meddyliol trwy ymlacio a thawelu. Bydd mynd i'r afael â'r argyfwng natur yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac mae mannau gwyrdd yn gwella ansawdd aer. Mae mwy o fioamrywiaeth yn gwella iechyd y corff trwy gryfhau systemau imiwnedd, ac mae treulio amser mewn coetir yn gwella microbiom y corff. Mae nifer y rheiny'n cysylltu â natur wedi gostwng yn sylweddol yn y DU a allai fod oherwydd nad yw unigolion yn byw o amgylch natur gymaint mwyach. Esboniodd OW sut i ailgysylltu â natur trwy gael natur mor agos â phosibl a threulio amser ym myd natur ond heb fod yn oddefol tra yno, gan sylwi ar yr amgylchedd yn lle. Er mwyn adfer natur, mae'n bwysig deall yr amgylchedd presennol, a diogelu hyn rhag niwed a cholled bellach. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro gydag argymhelliad penodol ar gyfer BGCau. Gwahoddir aelodau BGC y Fro i gefnogi adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (CIC) a gweithredu ei argymhellion.<br><br>Mynegodd FH ei chefnogaeth ar gyfer yr adroddiad a'r argymhellion fel rhai sy'n gyson â rhai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).<br><br>Gofynnodd MB a ellid defnyddio hyn fel sesiwn ddilynol gyda chynghorau tref a chymuned (CTChau) ar natur, bioamrywiaeth a'r hinsawdd.<br><br>Gwahoddodd EM OW i gyflwyno yn y cyfarfod cyfnewid BGC-CTCh nesaf. Nododd HM hefyd waith y bartneriaeth natur ac y gallai is-grŵp rheoli asedau a newid hinsawdd y BGC fynd â'r gwaith hwn ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | fioamrywiaeth ymlaen fel rhan o'r adolygiad o'r siarter argyfwng hinsawdd a chynnwys mwy o bwyslais ar natur os yw’r partneriaid i gyd yn gefnogol.<br><br>Roedd yr holl bartneriaid yn hapus i nodi’r argymhellion a chymeradwyo'r ffordd ymlaen. | |
| **6.** | **Strategaeth Fwyd y Bartneriaeth Fwyd**<br><br>Cyflwynodd CB y Strategaeth Fwyd newydd a chroesawodd feddyliau'r partneriaid.<br><br>Esboniodd LD mai Bwyd y Fro yw'r bartneriaeth fwyd leol ar gyfer y Fro sy'n gweithio gyda llawer o bartneriaid, grwpiau cymunedol a busnesau. Mae'n rhan o'r rhaglen lleoedd bwyd cynaliadwy sy'n rhoi mynediad at adnoddau ac arfer da. Esboniodd LD eu bod yn cynhyrchu strategaeth fwyd a ffermio ar gyfer y Fro, gan nodi bod Cymru Can wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a bod hyn yn amlinellu meysydd ffocws gyda system fwyd yn un ohonynt. Hoffai Bwyd y Fro wneud y strategaeth hon yn estyniad o'r gwaith o’r Cynllun Lles (CLl)/BGC a chysylltu â Cymru Can. Bydd y strategaeth yn bum mlynedd o hyd ac yn cael ei hadnewyddu ar ôl y cyfnod hwn gyda'r nod o greu system fwyd a fydd yn bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol gan ddefnyddio gweledigaeth 100 mlynedd. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ym mis Tachwedd 2023 i feddwl sut y dylai'r strategaeth edrych gan ddefnyddio'r fframwaith 3 gorwel a chafodd ei hwyluso gan CNC. Edrychodd hyn ar 'le rydym ni nawr', 'lle rydym ni eisiau bod' a 'sut y byddwn ni'n cyrraedd yno'. Gorwel 1 yw'r system bresennol 'lle rydym ni nawr', gyda diffyg sgiliau, materion iechyd, busnesau, data a bylchau tystiolaeth. Gorwel 3 yw 'lle rydym ni eisiau bod' gydag iechyd da, cynllunio a pholisi mynediad at fwyd da a chymorth busnes/cadwyni cyflenwi, addysg a diwylliant da, ac economi gylchol. Gorwel 2 yw 'sut y byddwn ni’n cyrraedd yno' gan ddefnyddio addysg, gwella mynediad at fwyd a chadwyni cyflenwi lleol, a gwneud newidiadau i'r system. Gwnaeth llawer o'r themâu godi yn y trafodaethau ar y gwahanol orwelion. Gofynnodd LD am feddyliau cychwynnol gan y partneriaid ar y weledigaeth 100 mlynedd.<br><br>Dywedodd RT fod y weledigaeth yn dda ac yn berthnasol, fodd bynnag, awgrymodd y gellid ei chrynhoi’n ddatganiad mwy cryno i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r weledigaeth hirach.<br><br>Mynegodd SH gefnogaeth ar gyfer y strategaeth gan ganmol yr uchelgais.<br><br>Esboniodd RT fod tîm arweinyddiaeth Cyngor y Fro wedi cael sesiwn yn ddiweddar gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i edrych ar ddechrau fframio cynllun corfforaethol 2025-30, a gweledigaeth ar gyfer y Fro gan edrych ar 2030 a thu hwnt. Yn y sesiwn hon roedd bwyd yn ganolbwynt allweddol. | Y partneriaid i roi adborth i LD erbyn 9 Chwefror |

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd LD fod tri nod strategaeth - teg ac iach, economi fwyd gylchol, gwydnwch cymunedol. Gofynnodd LD i'r partneriaid am feddyliau cychwynnol.<br><br>Dywedodd HM ei bod yn dda cael y nodau mwy cryno hyn gan fod ymgysylltu yn aml wedi codi sut y gallwn gyfathrebu amcanion mor hawdd â phosibl.<br><br>Mynegodd RT gefnogaeth ar gyfer y nodau, a gofynnodd a yw gwydnwch cymunedol yn ymwneud â mynediad at fwyd i gymunedau agored i niwed a rhoi cymorth i'r cymunedau hynny.<br><br>Esboniodd LD fod hynny'n gywir, yn ogystal â grymuso pobl i feddu ar y sgiliau a chael mynediad at fwyd da. Mae canlyniadau'r Strategaeth yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau cynlluniau eraill e.e. y CLl. Y camau nesaf yw cael adborth ar y weledigaeth a'r canlyniadau gan bartneriaid allweddol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2024 a chyfarfod 1 i 1 gyda phartneriaid allweddol i gyd-gynhyrchu camau gweithredu. Bydd y drafft terfynol yn cael ei ddosbarthu ym mis Ebrill 2024 gyda chyfle am sylwadau terfynol.<br><br>Partneriaid MB i roi adborth i LD erbyn 9 Chwefror. | |
| **7**. | **Rhaglen Ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg**<br><br>Esboniodd TB fod y Cyngor yn edrych ar yr uchelgais ar gyfer dyfodol y sefydliad, a sut i edrych yn fwy hirdymor ar adeiladu cymunedau cryf â dyfodol disglair. Edrychodd sesiwn gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y meddwl hirdymor hwn. Yn y sesiwn trafodwyd mynediad at fwyd, cysylltedd trafnidiaeth, cysylltiad cymunedol/perthyn, tegwch i alluogi pobl i gyflawni eu huchelgeisiau, a mwy o gyfleoedd i gael cyflogaeth deg. Ystyriwyd yr heriau presennol o ran y weledigaeth honno, fel materion yn ymwneud â'r gyllideb y mae Awdurdodau Lleol yn eu profi. Mae angen i'r strategaeth edrych ar yr hyn sydd ei angen ar drigolion a sut i fynd drwy'r cyfnod heriol hwn. Nodwyd pum thema i gyflawni'r weledigaeth hon:<br>**Model Gweithredu Targed** - Edrych ar brosesau, pobl, strwythur, a llywodraethu a thechnoleg;<br>**Trawsnewid Gwasanaethau** - Trawsnewid gwasanaethau penodol i wella canlyniadau, e.e. modelau gofal cymdeithasol, gwasanaethau dydd, dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd;<br>**Cryfhau Cymunedau** - Mae'r Cyngor yn cyflawni rôl alluogi, er enghraifft mae gwaith gydag ymgynghoriaeth Cwmpas wedi dechrau estyn allan at CTChau, mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector i ailddiffinio'r berthynas. Hefyd yn defnyddio model ysgolion bro**;**<br>**Digidol –** gwella rhyngweithio dinasyddion, y wefan, defnyddio data a deallusrwydd artiffisial;<br>**Gwyndwch Economaidd** – Mae gwaith creu lleoedd yn digwydd ar draws y pedair tref fawr (Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen), yn ogystal ag adfywio'r Barri a'r ddarpariaeth ffyniant bro. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd ST a oes cyfle i'r partneriaid gronni adnoddau drwy is-grŵp ymgysylltu i ymgysylltu â'r cyhoedd fel bod gweithgareddau wedi'u halinio, yn enwedig gan fod llawer o ymgysylltu eisoes wedi'i gynllunio.<br><br>Ymatebodd HM gan ddweud fod y BGC wedi ystyried is-grŵp ymgysylltu o'r blaen, ac efallai mai dyma'r amser i ailystyried ei greu.<br><br>Tynnodd RT sylw at y ffaith y gallai gwaith ymgysylltu o fewn sefydliadau fod yn berthnasol i'r partneriaid, felly mae alinio a rhannu gwybodaeth a gafwyd drwy ymgysylltu rhwng sefydliadau yn bwysig.<br><br>ST i drafod gyda HM sefydlu is-grŵp ymgysylltu. | ST/HM |
| **8.** | **Blaenraglen Waith 2024**<br><br>Partneriaid HM i anfon eitemau agenda posibl at HM neu APP i'w cynnwys ar y flaenraglen waith. | Pawb |
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Gofynnodd SH a allai rhywun ddod i Gyngor Tref y Barri i drafod y ffrydiau ariannu ar gyfer adfywio a datblygu'r Barri.<br><br>Cadarnhaodd RT ac ymrwymodd i ddod â gwybodaeth i'r BGC hefyd. Mae sawl ffrwd ariannu ar gyfer gwahanol brosiectau yn y Barri, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r BGC i drafod sut i fwrw ymlaen â hyn.<br><br>Tynnodd HM sylw at ddigwyddiad dysgu a rennir y BGC yn Wrecsam sydd ar ddod, ac at y ffaith y dylai pob partner fod wedi derbyn gwahoddiad a manylion cofrestru. | |
| **10**. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf - 9 Ebrill 2024** | |